



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pob Pennaeth Cynllunio

17 Medi 2020

Annwyl Gyfaill,

Ysgrifennaf atoch ynghylch diogelwch tân a rôl y system gynllunio o ran sicrhau bod anghenion yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses gynllunio a dylunio. Yng nghyd-destun ffocws creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru, rwyf hefyd am bwysleisio pwysigrwydd cyflawni hyn mewn ffordd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n gwella llesiant pobl.

Byddwch eisoes yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried diogelwch tân pan fo prosiectau adeiladu newydd yn cychwyn, ynghyd â sicrhau bod Awdurdodau Tân ac Achub yn gallu mynd i'r afael â thân mor effeithiol â phosibl. Dyma pam ein bod yn ymgynghori ar gynigion ar hyn o bryd i sicrhau yr ymgynghorir ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch ceisiadau cynllunio penodol. Mae'r ymgynghoriad i'w weld yma ar ein gwefan:

<https://llyw.cymru/ymgynghorin-statudol-ag-awdurdodau-tan-ac-achub-yn-ystod-y-broses-o-reoli-datblygiadau>.

Mae'n bwysig bod diogelwch tân a barn arbenigwyr diogelwch tân yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl ym mhroses gynllunio a dylunio datblygiad newydd. Dyna pam rwy'n eich annog i drafod gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub am faterion diogelwch tân yn eich ardal, a'u cynnwys yng ngwaith paratoi ac adolygu eich Cynllun Datblygu Lleol. Byddai eu cynnwys ym mhroses Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i ystyried diogelwch ar lefel yr ardal ehangach, a hwyluso ymhellach fynediad i ddiffodd tân a newidiadau posibl i adnoddau rheng flaen yr Awdurdodau Tân ac Achub.

Mae'r gofynion mynediad ar gyfer datblygiadau newydd wedi'u gosod yn [Nogfen Gymeradwy B](#) y Rheoliadau Adeiladu. Mae'n darparu canllawiau ar fodloni'r gofynion hyn. Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses dylunio a chynllunio. Er bod y Rheoliadau Adeiladu yn gymwys i ddatblygiad o fewn ffin y safle yn unig, mae'r system gynllunio yn gallu ystyried y datblygiad o fewn cyd-destun ehangach. Gall y system gynllunio hefyd sicrhau bod gofynion mynediad yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu bodloni mewn ffordd sy'n creu strydoedd sydd wedi'u dylunio'n dda ar gyfer pobl, gyda'r [Llawlyfr Strydoedd](#) yn darparu canllawiau ar sut y gellir cyflawni hynny.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre 0300 0604400

Mae angen cyflenwad digonol o ddŵr at ddibenion diffodd tân ar bob datblygiad newydd. Mae'n ofynnol hefyd dan Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 fod systemau chwistrellu a llethu tân wedi'u gosod ym mhob datblygiad domestig newydd. Rhaid inni fod yn ystyriol bod codiadau a gostyngiadau o ran llif a phwysedd, ynghyd â diffoddiad llwyr, oherwydd digwyddiadau cynlluniedig ac anghynlluniedig yn gallu effeithio ar holl rwydweithiau'r cyflenwad dŵr. Rhaid ystyried, felly, y cyflenwad dŵr ar gyfer diffodd tân a systemau chwistrellu yn gynnar yn y broses i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o ddŵr ar gael ac i fynd i'r afael â'r holl senarios gweithredol yr ydym yn ymwybodol ohonynt, megis gosod tanciau storio dŵr. Gall rôl cwmnïau dŵr fel ymgygoreion ddarparu cyngor gwerthfawr ar Gynlluniau Datblygu Lleol a cheisiadau cynllunio. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn Nogfen Gymeradwy B.

Mae tanau gwyllt yn fygythiad posibl arwyddocaol, yn enwedig mewn ardaloedd poblog wrth ymyl ardaloedd gwyrdd, megis bryniau, tir amaethyddol neu goedwigaeth. Felly, mae'n hanfodol bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio gyda hynny mewn cof. Pan fo datblygiad yn cael ei gynnig mewn ardal lle y mae perygl o danau gwyllt, dylid ystyried sut i liniaru lledaeniad y tanau hynny. Mae rheoli tir yn gynaliadwy yn gallu, er enghraifft, helpu i atal tanau gwyllt. Dyma enghraifft arall o bwysigrwydd cynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a cheisiadau cynllunio.

Ar y cyfan, rwy'n eich annog i drafod gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub a sicrhau bod diogelwch tân yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl yn y broses gynllunio.

Yn gywir.



Neil Hemington
Prif Gynlluniwr
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio